GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Dyfodol Clinigol Clinical Futures



# Astudiaeth Achos

## Derbyniadau Uniongyrchol i Ysbytai Cymunedol

### CEFNDIR

O fis Gorffennaf 2021, bydd cyfle i rai cleifion ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gael eu derbyn i ysbyty cymunedol yn hytrach nag un o'n hysbytai cyffredinol, uwch, lleol. Mae tystiolaeth gref nad oes angen gofal acíwt, ymyrraeth na chymorth diagnostig ar ganran o gleifion, ond eu bod angen lefel o gymorth na ellir ei darparu gartref. Bydd cleifion yn cael eu rhyddhau i fynd adref gyda chymorth gan dîm cymunedol os bydd angen.

### NODAU

Bydd y newid hwn yn y gwasanaeth yn galluogi timau meddygol i asesu unigolion yn llawn, cynnal profion helaeth a darparu gofal ychwanegol gan geisio ag osgoi'r straen o fynychu ysbyty cyffredinol, uwch, lleol. Deallwn mai adref yw'r lle gorau i gleifion felly bydd mynychu ysbyty cymunedol yn y tymor byr a chael cymorth ychwanegol gartref yn lleihau gorbryder cleifion a'u teuluoedd.

Bydd y claf yn cael ei atgyfeirio at y Tîm Adnoddau Cymunedol gan Feddyg Teulu neu Barafeddyg a fydd yn trefnu iddo gael ei dderbyn i ysbyty cymunedol dan eu gofal.

### PROSES

Rydym wedi dwyn ynghyd arbenigwyr ar draws ystod o feysydd, gan gynnwys iechyd a'r awdurdod lleol er mwyn dysgu o'r broses a oedd yn ei lle gynt, yr ydym wedi gallu adeiladu arni. Mae prosesau cyffelyb wedi gweithio'n dda yn flaenorol, ond bydd y fenter hon yn cynyddu'r nifer o unigolion sy'n gallu ceisio gofal fel hyn bob wythnos a hefyd cynyddu'r safleoedd sydd ar gael. Rydym hefyd wedi llwyddo i gysylltu ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i gael ambiwlans a fydd yn cael ei neilltuo ar gyfer y rhaglen ac a fydd yn cludo cleifion o'u cartref i'r ysbyty cymunedol.

### STORI WIR



Roedd angen trallwysiad gwaed ar Mrs B, ac yn hytrach na chael ei derbyn i wely ysbyty acíwt, cafodd y driniaeth yn Ysbyty Gwynllyw, ei hysbyty cymunedol lleol. Gan nad oedd modd trallwyso'r gwaed fel achos dydd, cafodd y driniaeth ac fe'i rhyddhawyd hi ar ôl aros dros nos yn yr ysbyty.

Dywedodd Mrs B, "roedd y staff yn wych. Cefais ofal arbennig, roeddwn i'n gyfforddus ac yn hapus fy myd yno. Ar ôl y driniaeth, roeddwn yn teimlo'n llawer gwell nag yr oeddwn wedi'i deimlo ers peth amser. Nid oes gennyf air negyddol i'w ddweud o gwbl."

### CANLYNIADAU / CAMAU NESAF

Yn y bôn, bydd y gwasanaeth hwn ar gyfer claf bregus a/neu hŷn sy'n adnabyddus i'r gwasanaethau ac sydd angen cyfnod o gymorth mwy dwys neu ofal nyrsio ychwanegol. Gall brofi hefyd fod gan yr unigolyn broblemau o ran ei sefyllfa gymdeithasol ac angen cael ei dderbyn i'r ysbyty i sicrhau ei ddiogelwch yn y tymor byr.